


# Cynhadledd Y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) 2024

Cynhaliwyd cynhadledd rithiol BHNOG 2024 ar ddydd Llun, 11 Mawrth 2024. Roedd y gynhadledd, o’r enw *'Y Cynllun Iechyd Gwaed: Gwneud iddo weithio i chi'* yn llwyddiant ysgubol, oedd yn dangos y fersiwn ddiweddaraf o'r Cynllun Iechyd Gwaed a'r gwaith amrywiol sydd yn cael ei wneud gyda Byrddau Iechyd ar draws Cymru i'w roi ar waith.

Ymunodd mwy na 90 o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru yn y Gynhadledd i wrando ar yr 20 cyflwynydd yn siarad ar amrywiaeth o bynciau, a chafwyd y prif gyflwyniad gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Syr Frank Atherton.

Hoffai’r BHNOG ddiolch i’r cyflwynwyr, y cyfranwyr a’r cynrychiolwyr am eu diddordeb a’u brwdfrydedd drwy gydol y dydd i wneud y Gynhadledd yn llwyddiant. Llongyfarchiadau yn arbennig i enillwyr cyntaf y pedwar categori poster, gan gyfeirio’n benodol at Debra Evans a Tracey Williams Jones, Arbenigwyr Nyrsio Thorasig, a’r Athro Ira Goldsmith, Llawfeddyg Cardiothorasig Ymgynghorol, am y poster buddugol – *“Improving the IV Iron Pathway for Pre-operative Patients referred from other Health Boards for Thoracic Surgery at Morriston Hospital in Swansea Bay University HB’.*

Gallwch weld yr holl gyflwyniadau, posteri ac adroddiad llawn ar y gynhadledd yn:

https://bhnog.wales.nhs.uk/cy/events/

# Cyhoeddi Cynllun Iechyd Gwaed diwygiedig GIG Cymru (BHP)

Mae Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru (BHP) wedi'i ddiwygio a'i ailgyhoeddi ar gyfer 2024-2027. Mae'r Cynllun Iechyd Gwaed yn parhau â'r 3 phrif nod strategol a restrir isod, ac yn hyrwyddo egwyddorion gofal iechyd darbodus a rheoli gwaed cleifion, gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd iechyd gwaed a'r defnydd priodol o gyfansoddion gwaed mewn lleoliad clinigol.

GIG Cymru sy'n berchen ar y cynllun, ac mae wedi'i ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol ar draws y gymuned trallwyso clinigol a gwyddonol, gan hyrwyddo ffordd o weithio ar draws y gymuned drallwyso i sicrhau cyflenwad gwaed diogel a chynaliadwy i gleifion.

*'**R**ight blood, **R**ight time, **R**ight patient.'*

Tri nod strategol y Cynllun yw:


1. Helpu unigolion i reoli eu hiechyd gwaed a'u llesiant, ac osgoi ymyrraeth ddiangen
2. Defnyddio tystiolaeth a data i lywio cynllunio, gwella ymarfer a lleihau amrywioldeb
3. Rhoi diogelwch ac ansawdd wrth wraidd gofal, gan leihau defnydd amhriodol a hyrwyddo arloesedd



**Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru**

I weld Cynllun Iechyd Gwaed 2024 sydd ar gael ar wefan BHNOG, cliciwch yma

# Cynllun Prinder Celloedd Coch GIG Cymru




Cyhoeddwyd Cynllun Prinder Celloedd Coch GIG Cymru ar 18 Mawrth 2024.

Mae wedi'i gynllunio i sicrhau bod Gwasanaeth Gwaed Cymru, ynghyd â'r Gwasanaethau Trallwyso a'r Byrddau Iechyd ehangach yng Nghymru yn gweithio mewn proses gydweithredol, i ddarparu dull integredig o reoli cyflenwad celloedd coch, osgoi prinder a lleihau unrhyw effaith ar gleifion cyn belled ag y bo modd.

Mae hwn yn diweddaru cynllun integredig Llywodraeth Cymru (2009).

Mae'r Cynllun ar gael ar wefan BHNOG yn https://bhnog.wales.nhs.uk/; cliciwch yma i gael mynediad.

# Ffarwelio â Lee Wong

Ac yn olaf… hoffai'r BHNOG ddymuno'n dda i Lee, sy'n ymddeol y mis hwn, ar ôl gweithio i Wasanaeth Gwaed Cymru am 43 mlynedd; hoffem ddymuno ymddeoliad hapus a haeddiannol iddi.



Am y 6 blynedd diwethaf, mae Lee wedi bod ar flaen y gad o ran arferion arloesol yn ei rôl fel Arweinydd y Tîm Cynghori Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed, ac mae hi wedi arwain mentrau sydd wedi datblygu gwaith y BHNOG yn aruthrol.

Dyfyniad gan Dr Brian Tehan, Cadeirydd BHNOG:

*"Rydym yn falch iawn o'r cynnydd rydyn ni yng Nghymru wedi'i wneud gyda BHNOG a'r Cynllun Iechyd Gwaed. Mae'r llwyddiant hwn wrth gwrs, diolch i lawer o unigolion a sefydliadau, ond mae Lee wedi bod yn ganolog i hyn. Rydyn ni a finnau, yn drist iawn ei bod hi'n gadael, ond yn dymuno ymddeoliad hapus a haeddiannol iawn iddi, wrth i ni edrych nôl ar bopeth mae hi wedi'i gyflawni."*

Mae'r cylchlythyr hwn wedi cael ei ddosbarthu ar ran y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol..

Mae croeso i chi ei anfon ymlaen at gydweithwyr neu bartïon eraill â diddordeb.

I gael rhagor o wybodaeth neu ddiweddariadau, cysylltwch â'r Tîm Iechyd Gwaed:
WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

Os nad ydych yn dymuno derbyn y cylchlythyr hwn rhagor, cysylltwch â: WBS.BloodHealthTeam@wales.nhs.uk